**Bwletin o Batagonia 9 – Jarilla gan Twm Elias**

Un o'r llwyni mwyaf cyffredin ar y paith o gwmpas y Gaiman yw y jarilla, neu 'charisha' yn ôl ynganiad Patagonia *(Lavrea divericata)*. Llwyn agored tua 1-2 medr o daldra, y brigau aeddfed yn llwyd a dail bychain siâp lens wedi eu gosod yn barrau. Mae'n blanhigyn meddyginiaethol, un y dysgodd y Cymry amdano oddiwrth lwyth brodorol y Tehuelche yn nyddiau cynnar y Wladfa.

Er ei fod yn gyffredin iawn drwy'r paith cyfagos, bu i Hector MacDonald, yma ar Heol Michael D Jones yn y Gaiman, blannu rhai llwyni o'r jarilla yn ei ardd am ei fod yn llwyn yn arogli'n hyfryd pan mae'n glawio.

Ei brif ddefnydd, cyn dyddiau'r gwasanaeth meddygol modern, oedd i leddfu poen. Mae cyffuriau sy'n gweithredu fel poen-laddwyr cryf ynddo a byddai pobl yn cnoi y dail i leihau y ddannoedd. Hefyd, os oedd briw poenus, byddid yn morteisio'r dail a'u gosod mewn cadach yn becyn ar y briw. Ac os byddid wedi torri asgwrn, ei forteisio a'i osod yn drwch am y fraich neu goes ddolurus ac yna plastro haen dew o fwd drosto. Byddai'r mwd yn sychu'n galed, cystal â phlaster Paris unrhyw ddydd.



*Llwyn jarilla (y mwyaf), ar y dde, ynghyd a'r 'llwyn llwydlas' bychan ar y chwith. Dyma'r ddau lwyn mwyaf cyffredin at y paith yn ardal y Gaiman. Sylwch ar yr holl gerrig (cerrigos) bychain lliwgar sy'n gorchuddio'r ddaear ac ambell dusw prin o wair*



*Dail ifanc y jarilla wedi eu gosod yn barrau*